# Rhagolwg o Raglen y Gynhadledd*




## Cipolwg cyntaf ar yr hyn sydd ar y gweill……

Rydym yn falch o rannu rhagolwg cychwynnol o'r rhaglen gyffrous ar gyfer ein Cynhadledd Genedlaethol 2026.

Gyda chymysgedd cyffrous o siaradwyr, sesiynau ymarferol, trafodaethau sy'n ysgogi'r meddwl ac astudiaethau achos, bydd y rhaglen yn cynnig dros 20 o sesiynau.

*Noder: rhagolwg cychwynnol o'r rhaglen yw hwn. Cyhoeddir rhagor o sesiynau, siaradwyr a manylion y rhaglen maes o law. *Gall cynnwys y rhaglen newid.*

---

## Uchafbwyntiau'r Rhaglen

### Sesiwn Allweddol

**Gwasanaethau Gwell, Canlyniadau Gwell:** dysgu o gwynion ym maes tai.

Clywch gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, Michelle Morris, yn y sgwrs agoriadol sy'n ysgogi'r meddwl hon, gan archwilio'r gwersi sy'n deillio o gwynion, gwaith achos ac adolygiadau ar draws y sector tai cymdeithasol.

Darganfyddwch y themâu cyffredin y tu ôl i fethiannau gwasanaeth, y cyfleoedd i wella, a'r camau ymarferol y dylai landlordiaid eu cymryd i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i Denantiaid a phreswylwyr.

*Yr [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ](#) yw'r corff swyddogol annibynnol sy'n ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys tai cymdeithasol.*



Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

## Trafodaethau Panel yn cynnwys

- **Gwneud Pethau'n Well: Beth ddylai landlordiaid cymdeithasol fod yn canolbwyntio arno yn 2027 a thu hwnt?**

  *a*
- **Fforddiadwyedd rhent: Beth yw'r problemau a beth yw'r atebion**?

## Sesiynau gweithdy gayn cynnwys

### Gwella gwasanaethau Atgyweirio drwy Ymgysylltu â Thenantiaid

- Beth sy'n digwydd pan fydd tenantiaid yn ymwneud yn wirioneddol â gwella gwasanaethau atgyweirio? Clywch gan ddau o ymgeiswyr terfynol Gwobrau TPAS Cymru, Trivallis a Tai Tarian, wrth iddynt rannu sut mae gweithio gyda thenantiaid wedi helpu i wella gwasanaethau atgyweirio i bawb.

### Y 5 peth y mae Rheoleiddwyr Tai yn eu gweld yng Nghymru: beth mae'n ei olygu i Gymdeithasau Tai, Tenantiaid ac Ymgysylltu â Thenantiaid

- Cyfle i gwrdd â thîm Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio cymdeithasau tai yng Nghymru a chlywed y diweddariadau diweddaraf. Darganfyddwch beth mae'r rheoleiddwyr yn ei weld ac yn disgwyl ei weld, a beth mae'n ei olygu'n ymarferol i landlordiaid ac i denantiaid.

### Sesiwn Caffi Anabledd Hygyrchedd ac Addasiadau: Beth sydd angen ei newid i sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y person

- Ymunwch â ni am sesiwn sy'n canolbwyntio ar addasiadau a hygyrchedd mewn cartrefi cymdeithasol, lle byddwn yn rhannu diweddariadau o'n prosiect hyd yn hyn, pwysigrwydd ymgysylltu â thenantiaid anabl mewn trafodaethau am anghenion a chartrefi a'r hyn sydd angen ei newid i sicrhau bod gan bawb gartref addas iddynt fyw'n gyfforddus ynddo.

### Offer a dulliau ymarferol i ymgysylltu â chymunedau - Y Gynghrair Tai Iach

- Cymerwch rai syniadau ymarferol a dysgu o brosiect partneriaeth arloesol y gallwch eu defnyddio yn eich gweithgareddau ymgysylltu cymunedol a thenantiaid eich hun.

**Deddf Diogelwch Adeiladau ac Ymgysylltu â Thenantiaid – beth mae'n ei olygu i Denantiaid a Landlordiaid**


- Darganfyddwch gan swyddogion Llywodraeth Cymru beth mae Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) newydd yn ei olygu i denantiaid a landlordiaid yng Nghymru.

**Gweler ble gall eich creadigrwydd eich arwain! - Rhoi cynnig ar gelf a chrefft hawdd gan addurno'ch blwch cofroddion eich hun!**

- Beth am roi cynnig arni ac yna efallai defnyddio celf a chrefft fel ffordd ddiddorol o ymgynghori â'ch tenantiaid neu'ch cymuned a rhannu gwybodaeth â nhw?

## **Hefyd: Newydd ar gyfer 2026 ar Ddiwrnod 1 - Y Tu Hwnt i'r Prif Raglen -** Sesiynau dewisol ychwanegol o 4:30pm

***Cathy Come Home*: Dangosiad 60fed pen-blwydd y ddrama deledu arloesol gan y BBC (1awr 15munud.)**




Wedi'i darlledu gyntaf ar Dachwedd 16, 1966, a'i wylio gan 12 miliwn o bobl, newidiodd y rhaglen safbwynt Prydain ar ddigartrefedd. Roedd ei heffaith yn syth, gan droi sylw'r cyhoedd at ddigartrefedd a'r canlyniadau trasig i deuluoedd sy'n canfod eu hunain heb unman i fyw.

---

## Mwy i ddod!

Dyma flas yn unig **o'r hyn sydd ar y gweill**.

Cyhoeddir rhagor o sesiynau, siaradwyr ac uchafbwyntiau'r rhaglen yn fuan, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru i ymuno â ni yn ein Cynhadledd Genedlaethol.

COFRESTRWCH YMA NAWR / DARLLENWCH FWY

📅 **11/12 Tachwedd 2026**
📍 **Gwesty'r Metropole, Llandrindod**
🌐 Gwefan / Tudalen y Digwyddiad




** Mae cynnwys y rhaglen yn amodol ar newidiadau.*